




Menyg ymlaen?

- Pan fyddwch mewn cysylltiad â gwaed/hylifau'r corff, croen wedi torri neu fwcws pilenni.
- Pan fyddwch mewn cysylltiad â pheryglon cemegol fel diheintyddion, cyfryngau cadw neu gyffuriau sytotocig.
- Dim ond pan fydd dwylo'n cael eu sychu'n drylwyr (ar ôl golchi dwylo neu ddefnyddio gel alcohol) i leihau'r risg o gael dermatitis.
- Pan fyddwch mewn theatr llawdriniaeth, neu'n cyflawni triniaeth risg uchel, argymhellir eich bod chi'n gwisgo menyg dwbl.



Menyg i ffwrdd?

- Cyn gynted ag yr amheuir bod y menyg wedi eu difrodi.
- Pan nad ydych mewn cysylltiad rhagor gyda gwaed/hylifau'r corff, croen wedi torri neu bilenni mwcws.
- Pan fyddwch wedi gorffen un agwedd ar ofal/triniaeth claf (e.e. efallai y bydd angen gwisgo menyg i wagio cathetr wrinol cyn darparu gofal y geg).
- Pan fyddwch yn gorfod golchi eich dwylo.
- Pan na fyddwch mewn cysylltiad â chemegion rhagor.